

Elfen Asesu 2 – Portffolio Tystiolaeth

Gellir cael mynediad i'r dystiolaeth ffilm isod (rhan o wers Gymraeg ar Chwedl Branwen ar 'PAP 2' gyda disgyblion Blwyddyn 6):

https://drive.google.com/file/d/1ZSv-QE6VhIAGaEmpT7Va-B0rn8L_TeST/view?usp=drivesdk

1. Adfyfyriad o'r dasg ffilm gan ystyried y 'Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon' a chamau gweithredu cymerwyd ar gyfer gwella

Yn gyffredinol, rwyf yn hyderus fy mod wedi ymarfer fy sgiliau addysgu iaith trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyson trwy gydol fy mhrofiadau mewn ysgolion gwahanol. Credaf fy mod yn taro'r isod o ran y 'Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon' felly;

- Gwrando: B2,
- Llafar: B2,
- Darllen: C1,
- Ysgrifennu: C1,
- AD4/5.

Bwriadaf brofi'r sgoriau drwy adfyfyrio ar y rhan o'r wers a ddarperir yn y linc ffilm uchod. Yn ogystal â hynny hoffwn amlinellu enghreifftiau o'r camau ymarferol cymerais ar gyfer gwella fy arfer addysgu iaith, gan dalu sylw'n benodol at fy sgiliau ieithyddol llafar.

O ran y meysydd gwrando a llafar credaf fy mod yn taro B2. Y rhesymau am hynny yw oherwydd dengys y dystiolaeth ffilm fy ngallu i ddarllen yn gyntaf, gydag ystyr ac eglurder.

Modelais iaith raenus i'r disgyblion a thrafodais y testun trafod mewn arddull addas ar eu cyfer. Rwyf yn dangos hyder a rhuglder wrth siarad â'r disgyblion felly. Gwelir yn y ffilm fy mod hefyd yn medru gwrandao ar y dysgwyr ac ateb unrhyw gwestiynau cysyniadol o ran cynnwys y chwedl dan sylw a hefyd o ran technegau iaith megis trosiadau, idiomaau a chyffelybiaethau. Atega sylwadau fy nhwrtor proffesiynol (gweler atodiad 2) fy ngallu i ymdrin â'r plant ar lafar yn gadarn hefyd. Gwelais bod gennyf hefyd le i wella fy arfer bersonol a hynny drwy ganolbwyntio ar sicrhau cywirdeb llafar cyson ond hefyd o ran darparu cyfle i blant drafod ac i mi wrando ar eu trafodaeth yn fwy mewn gwersi iaith.

Y camau cymerais i wella fy nghywirdeb llafar oedd i gwblhau ymarferion llyfr ymarferion iaith Gwyn Thomas. Mae modelu iaith raenus a hynny'n gyson yn allweddol o ran sicrhau bod plant yn caffael iaith yn effeithiol (Siencyn, 2008). Penderfynais felly fod angen i mi wneud yr ymarferion er mwyn atgoffa fy hun o reolau gramadegol y Gymraeg yn gyson yn y gobaith y bydd yn treiddio at fy nefnydd o iaith ar lafar. Dadleua Davies (2013) nad yw athrawon yn ddigon hyderus nac yn meddu ar y sgiliau iaith briodol felly pwysig i mi oedd sicrhau fy hunan-hyder o ran geirfa a gramadeg. Yn ôl Donaldson (2015) a'r Central South Consortium (2017), mae angen i ysgolion ganolbwyntio ar gyfarthrebu llafar a deall iaith lafar yn llwyr. Noda Palmer (2009) fod ansawdd y sgwrsio a'r ymwneud rhwng plant ac oedolion yn allweddol wrth sicrhau caffael iaith yn y ffordd orau. Noda hithau mai'r ffordd orau o wneud hyn yw modelu iaith gywir gan hefyd annog meddwl creadigol trwy gwestiynu'n fwy agored. Ceisiais ddatblygu ar hyn drwy fy aseiniadau gydol y flwyddyn gan ymchwilio i Dacsonomeg Bloom fel sgaffald i fy nghwestiynu. Rhoddais hyn ar waith yn fy nghynlluniau gwersi arfaethedig isod yn ogystal.

Er i mi weithio'n gyson ar fy nghywirdeb llafar bersonol, dadleua Thomas et al (2018) ni ddylid cywiro iaith dysgwyr yn ormodol ac os oes angen cywiro iaith dysgwyr dylid drin a thrafod camgymeriadau yn hytrach na nodi a chywiro'r gwall yn syth. Cytuna Palmer (2009) fod gwrando ar blant a lleihau cywiriadau llethol o fudd, yn enwedig i ddisgyblion iau'r ysgol. Atega Richards (2006) fod canolbwyntio ar gyfathrebu yn hytrach na ramadeg yn allweddol er mwyn annog defnydd o iaith. Ynghylch y gwrando felly, er fy mod yn rhyngweithio'n estynedig ac yn hyderus gyda'r dysgwyr, gwelais gyfle i ymhelaethu ar fy ngallu i adnabod cyfleoedd iddynt dyfu ymhellach a hynny'n fwy annibynnol mewn sesiynau iaith. Rhoddais hyn ar waith gyda disgyblion Cyfnod Sylfaen pan ar brofiad dewisiol. Efelychais arferion da nodwyd gan Estyn (2008) o ddarparu profiadau i drafod yn estynedig drwy ddilyn trywydd a diddordeb y disgyblion pan yn ymdrin â thasgau gwahanol.

Wedi dweud hynny, pwysicach ydyw i sicrhau sylw gramaedgol gyda disgyblion oed Cyfnod Allweddol Dau. Cyhoedda Baker (2006) fod dulliau achlysurol o ddysgu iaith megis annog perthnasedd, cyd-destunau real a chyn lleied o gywiriadau gramadegol yn bwysig yn y blynyddoedd cynnar. Er hyn, atega mai pwysig iawn yw rôl gramadeg yn hwyrach yn addysg ieithyddol disgyblion. Dengys y ffilm fy mod yn medru cyflwyno cysyniadau gramadegol megis cystrawen brawddegau neu dreigladau iaith yn llwyddiannus i'r dysgyblion ac annog iddynt wneud hyn wrth ddarllen ac yn eu gwaith ysgrifenedig. Gallaf egluro cysyniadau ieithyddol i'r plant mewn ffordd briodol ac addas i'w gallu (gweler y dystiolaeth ffilm). Dengys yn y dystiolaeth fideo yn ogystal fy ngallu bersonol i ddarllen ar goedd yn naturiol ac eglur fel model i'r plant. Gyda'r adran darllen ac ysgrifennu felly, hoffwn osod fy hun ar C1.

Camau ar gyfer gwella i mi gymryd oedd talu fwy o sylw at ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig y tu hwnt i faes diwylliant neu hanes yr iaith er enghraifft i faes megis tarddiad yr

iaith a pherthynas y Gymraeg ag ieithoedd eraill. Noda Williams (2017) all hyn ddatblygu ymdeimlad plant o gymuned ac o bwrpas mwy perthnasol i'r Gymraeg felly. Er mwyn gwneud hyn ymchwiliad i gefndir hanesyddol yr iaith a sicrhau fy mod yn gwenud hyn yn y cynlluniau gwersi arfaethedig isod e.e 'conque' Ffrangeg er mwyn egluro tarddiad ac ystyr y gair 'concer' i'r dosbarth. Gwelir hefyd fy ngwreiddioldeb wrth addysgu iaith drwy ddefnyddio tasgau megis 'barddoniaeth blacowt' a chreu broliant o eirfa allweddol y chwedl. Er hyn, gwelais lle i wella o ran fy arddull cyflwyno gwaith iaith i ddisgyblion. Ceir ymchwil o blaid defnyddio gemau wrth hwyluso dysgu iaith gydag appiau megis Duo Lingo yn dyst i hyn (Curry, dyddiad anhysbys). Mynychais sesiwn gyda'r Athro Mererid Hopwood ar annog creadigrwydd ymysg plant drwy ddefnyddio gemau iaith. Ymarferais rhai ohonynt a chreu ambell syniad newydd (gweler atodiad 3). Ffordd arall es i ati i wireddu'r gôl hefyd oedd datblygu amrywiaeth o gyfryngau cyflwyno cyfarwyddiadau i dasgau iaith dysgwyr. Ceir enghraifft o hyn yn un o'r cynlluniau gwersi arfaethedig o ddefnyddio fideo yn hytrach na thraethu o flaen y dosbarth.

Yn gyffredinol o ran addysu iaith, sefydlais dau darged y tu hwnt i'r wers yn y ffilm at fy nghamau ar gyfer gwella. Rheiny oedd; yn gyntaf, talu sylw at effaith gwaith mewn grwpiau ar ddysgu iaith plant ac yn ail, ymchwilio i effaith beth sydd yn gwneud amgylchedd yn un gyfoethog gan dalu sylw at yr ardal allanol. Noda Hall (2001) fod cyfathrebu da wrth wraidd y broses dysgu iaith a bod trafod gyda dysgwyr yn rhan o'r daith deall cysyniadau gwahanol, cyd-destunau newydd a sgiliau trosglwyddadwy. Ychwanega ef, serch hyn, dylid trafod ar y cyd ac o blentyn i blentyn gan annog y defnydd o ieithoedd amrywiol i gefnogi'r broses gysyniadol. Cam arall ar gyfer gwella fy arfer dysgu iaith oedd i sicrhau'r defnydd o waith mewn grwpiau'n fwy er mwyn annog ymdeimlad o berchnogaeth ac i sbarduno trafodaethau

o wahanol fath. Ar fy mhrofiad dewisiol arbrofais gyda hyn drwy arsylwi gwersi'n yr ardal allanol oedd yn annog gwaith mwy cymdeithasol.

Daw hyn â mi at yr ail darged sef, archwilio amgylchedd cyfoethog. Noda gwaith Bruner (1982) fod amgylchedd amrywiol yn sbarduno cyfleoedd cyfoethog ar gyfer dysgu iaith yn ddwfn. Yn wir, dadleua Siencyn (2010) fod chwarae tu allan yn cynnig lle i blant arbrofi ag iaith ac atega Jarman (dyfynnwyd yn Preedy et al, 2019) mai'r amrywiaeth a geir ar gyfer y synhwyrâu yw un o'r rhesymau dros hynny. Ychwanega Richards (dyfynnwyd yn Siencyn, 2010) fod y defnydd addas o'r ardal allanol yn galluogi ar gyfer datblygiad ieithoedd y tu hwnt i'r Gymraeg. Noder bod hyn yn ganlyniad i'r cynnydd a geir o'r cyfle i blant ddarllen iaith y corff a semanteg pan yn ymgymryd mewn tasgau tu allan. Penderfynais ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn gweld arfer dda a gwella arfer bersonol drwy ddewis hwn fel topig ar gyfer fy nhraethawd hir felly. Bwriadaf ddefnyddio'r hyn i mi arsylwi yn y dyfodol ar lawr yr ystafell ddosbarth.

Hyderaf, felly, fy mod yn gryf wrth fodelu iaith raenus a chywir i blant yr ysgolion ac wrth drin a thrafod materion â staff yr ysgolion hynny'n ogystal (gweler atodiad 2 am dystiolaeth). Dengys hyn fy mod yn medru addasu fy nefnydd ieithyddol wrth ymdrin â disgyblion i drin pobl proffesiynol. Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i fedru addysgu disgyblion y ddau gyfnod sef y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol Dau. Galluogodd hwn i mi arbrofi â strategaethau addysgu iaith amrywiol (gweler atodiad 3 am dystiolaeth). Dengys yr enghreifftiau yno fy mod yn medru datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr mewn mwy nag ond gwersi iaith hefyd. Gweler fy mod yn medru gwau gwybodaeth ieithyddol a'r fframwaith llythrennedd i amryw o gyd-destunau gan gynnwys tasgau gwreiddiol ym maes Celf, Cymhwysedd Digidol a'r Awyr Agored. Ceir tystiolaeth hefyd o'r amrediad o strategaethau i

mi ddefnyddio yn fy nghynlluniau gwersi er enghraifft, chwarae'r gadair goch neu efelychu 'barddoniaeth blacowt', teilwra gwaith iaith at allu unigolion a chwestiynu er mwyn herio ac ymestyn defnydd ieithyddol dysgwyr. Aiff hyn oll law yn llaw ag AD4/5, sef arddangos ymwybyddiaeth o ddatblygiadau diweddar ym maes caffael iaith a'u rhoi ar waith ar lawr yr ystafell ddosbarth fel modd o wahaniaethu neu ddatblygu iaith dysgwyr.

2. Dau gynllun gwers fel enghreifftiau o sut i sicrhau datblygiad pellach i'r dyfodol gyda'r cwricwlwm newydd fel ffocws

2.1 Dadansoddi a chynnig rhesymwaith dros gynnwys y gwersi arfaethedig:

Pwysig oedd mynd ati i wau darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando i'r cynlluniau gwersi arfaethedig isod gan y noder bod hyn yn arfer ddelfrydol yng nghwricwlwm drafft newydd Cymru ar gyfer 2022 (HWB, 2020). Fel rhan o'r ddwy wers isod felly, gwelir enghreifftiau o ddarllen fel sail i'r ddau brif dasg ar gyfer y disgyblion. Yn yr achos gyntaf, darn darllen ffeithiol ceir ac erbyn yr ail wers ceir darn darllen o natur ffuglennol. Allweddol yw trochi plant mewn mathau amrywiol o ddarllen er mwyn ymestyn eu geirfa a'u dealltwriaeth o gysyniadau mewn gwahanol gyd-destunau (Maynes, 2018). Atega Corbett (2014) fod darnau darllen ffeithiol yn medru sicrhau cyfoethogi iaith ac ysgrifennu disgyblion llawn cystal â darnau ffuglennol. Sylwer felly mai'r un testun o ddysgu am y concer a geir ond hynny mewn dau gyd-destun gwahanol er mwyn gwireddu'r datganiadau uchod.

Yn ogystal â chyfuno mathau gwahanol o destunau darllen i ddysgwyr, amlyga Gathercole (dyfynnwyd yn Siiner et al, 2018) fod darllen dwyieithog o les i ddysgwyr mewn amgylchedd amlieithog. Hoffa Williams (2017) weld y bwyslais ar addysgu'n ddwyieithog yn treiddio i ysgolion yng Nghymru. Yn bendant, awgrymir trawsieithu fel dull llwyddiannus ar gyfer caffael sgiliau iaith yn gadarn gan Thomas et al (2018). Honnir drwy gyd-blethu ieithoedd gall dysgwyr ddod i ddeall cysyniadau a chynnwys mewn iaith newydd gyda'u hiaith gyntaf yno fel sgaffald iddynt. Aiff y CLIL gam ymhellach o ran addysgu cynnwys i blant trwy gyfrwng iaith newydd iddynt (Cenoz, 2013) ond nodir gan Thomas et al (2018) mai dull mwy addas ar gyfer plant oed uwchradd yw hyn.

Serch hyn, gellir yn sicr defnyddio cyfryngau sydd yn ymarfer sgiliau gwrandio plant drwy gyflwyno testunau gwyllo'n y Gymraeg neu Saesneg iddynt a dyma a wnaed yn y cynllun gwers gyntaf. Galluoga'r rhan hon o'r wers ar gyfer yn gyntaf, ymarfer sgiliau gwrandio ac, yn ail, er mwyn rhoi cyfle i ddisgyblion drawsieithu o Saesneg llafar i Gymraeg ysgrifenedig. Daw gwahaniaethu gwaith yn rhan hyd yn oed yn fwy allweddol o wersi wedyn gyda darparu ar gyfer y rheiny sydd yn llai hyderus er enghraifft, gwelir defnydd o fatiau geirfa neu derminoleg pwnc yn yr ail gynllun gwers.

Yn deillio o ddarnau darllen amrywiol, daw trin a thrafod iaith y darnau hyn er mwyn annog dealltwriaeth dysgwyr yn hollbwysig o'r broses ddysgu (Maynes, 2018). Dyma a ddaw'n amlwg ym maes addysgu iaith o ran y pedwar diben sef sicrhau 'diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd' (HWB, 2020). Gwelir fel rhan o'r ddwy wers ymdrech i gynnwys cyfle i dalu sylw at unrhyw gynnwys cyn mynd ati i gwblhau unrhyw dasg yn seiliedig ar y darn darllen ond hefyd ceir enghraifft o gyflwyno etymoleg i ddysgwyr. Drwy drafod tarddiad geiriau a pherthynas geiriau Cymraeg gydag ieithoedd eraill, megis Saesneg neu

Ffrangeg yn yr achosion isod, plethir dysgu iaith plant. Noda Thomas et al (2018) yn eu hawgrymiadau bod annog cyd-bwysedd rhwng mewnbwn athro ac allbwn plant yn allweddol. Fel rhan o'r ddau gynllun gwers rwyf wedi gwau trafod mewn sawl man yng nghynnwys y gwersi felly.

Yn olaf, rwyf wedi sicrhau gwersi o natur trawsgwricwlaidd gyda chynnwys a thema'n gyrru'r gwersi a'r iaith yn ganolbwynt dilynol felly. Cyffyrddir â gwyddoniaeth o ran trafod sut i galedi'r concer, trafodir cymhwysedd digidol drwy'r defnydd o recordio cerddi a chreu codau QR. Ceir hefyd defnydd o gemau megis 'Mae Miss Eleri'n dweud...' er mwyn hwyluso dysgu iaith o ran cynorthwyo dealltwriaeth y plant o'r defnydd o dechnegau iaith, eu pwrpas a'u heffaith. Arweinia hyn oll at ddealltwriaeth ddofn cyn mynd ati i ysgrifennu eu darnau, boed yn waith creadigol ai peidio.

Yr hyn ddaeth yn amlwg o ran addysgu iaith gyda chwricwlwm newydd i Gymru fel ffocws oedd pa mor allweddol ydyw i gynnig amgylchedd cyfoethog i ddysgwyr a hynny drwy gynnig amrywiaeth ieithyddol a chyd-destunol iddynt a darparu amser a lle iddynt ymateb ac arbrofi gyda hynny.

2.2 Y cynlluniau gwersi:

Cynllun Gwers 1

PWY? Gwers Gymraeg ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 (CA2).

BETH? Thema'r tymor all fod yn debyg i PAP 2 sef llyfr 'Y Geiriau Diflanedig'. Aiff y thema hon law yn llaw â'r cwricwlwm newydd wrth ystyried plethu thema i wersi disgyblion. Galluoga hyn ar gyfer hyblygrwydd bynciol a datblygiad mwy holistaidd o ran dysgu'r disgyblion.

			1B
Cynllun Sesiwn – Cyfnod Allweddol 2			
Enw'r hyfforddai:	Siobhán Eleri	Cyfeirnod Sesiwn:	1
Targed(au) personol o ran S3.2 SAC: I barhau i ymateb yn sensitif ac yn ystyrlon i waith disgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig, pennu targedau priodol sy'n cynnig ffordd ymlaen i bob disgybl unigol.			
Grŵp blwyddyn:	6	Nifer y dysgwyr:	27
		ADY(ALN)	3 defnyddio cyfrifiadur gyda gwaith ysgrifenedig.
Oedolion ychwanegol:	0		
Nod(au) dysgu: Erbyn diwedd y wers dylid wedi defnyddio yr hyn ddysgon am y gêm concers i greu cyfarwyddiadau yn y dull priodol.		Meini prawf llwyddiant: Dull addas gyda'r wybodaeth berthnasol yn gynnwysiedig e.e teitl, is-deitl, berfau gorchmynnol, adferfau amserol, camau mewn trefn wedi'u rhifo.	

Cysylltiadau â dysgu blaenorol: Mae thema'r tymor yn seiliedig ar lyfr 'Y Geiriau Diflanedig'. Yn dilyn llais y disgybl death y syniad o drafod y gêm concers fel sbardun ar gyfer gwers. Er mwyn cyflawni'r cynllun tymor canolig penderfynwyd ar y dasg o greu cyfarwyddiadau o'r syniad hynny.	
<i>Ymdriniaeth â'r <u>hen gwricwlwm</u> (ystod, sgiliau):</i> <i>Cymraeg: Ysgrifennu:</i> <i>Ystod:</i> <i>Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr: roi cyfarwyddiadau</i> <i>Sgiliau:</i> <i>defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol</i> <i>defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol</i> <i>defnyddio strwythurau brawddeg amrywiol er mwyn pwysleisio a chreu effaith</i> <u>Ymdriniaeth â'r cwricwlwm newydd i Gymru (2022):</u> Maes dysgu a phrofiad: leithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu: <u>Cynllunio a threfnu</u> - 'archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd' - 'cefnogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o darddiad, esblygiad a nodweddion y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol'	

- 'cyfleoedd i ddysgwyr brofi iaith lafar ac ysgrifenedig, yn ogystal â delweddau, mewn ystod o ffurfiau a <i>genres</i>.' - 'cyfleoedd i ddysgwyr siarad ac ysgrifennu er mwyn iddyn nhw fod yn effeithiol wrth ryngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthynas ag eraill. ' - 'gwahanol gynulleidfaoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg'			
<i>Llythrennedd(FfLIRh)</i> • prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill. Gellir darllen gwaith ei gilydd ar lafar hefyd yna'i werthuso a gwneud argymhellion pendant ar gyfer ei wella. Galluoga hyn ar gyfer golygu a/neu ail-ddrafftio'r gwaith i ddangos cynnydd.		<i>Rhifedd(FfLIRh)</i>	
<i>FfCD</i>	<i>Meddwl</i>	<i>ADCDF</i>	<i>YCC</i>

	Meddwl-paru-rhannu, grwpiau trafod ac adfyfyrion personol drwy hetiau meddwl ar gwestiynau caeëdig ac agored.		leithyddol: Dod yn ymwybodol o darddiad geiriau'n Gymraeg a hynny mewn cyd-destun sydd yn ystyried hi fel iaith a'i chysylltiadau â'r Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill.
<i>Geirfa Allweddol(Cymraeg/Saesneg):</i> Concer/ conker Coeden castanwydden/ chestnut tree Cregyn malwod Onomatopoeia Berf gorchmynnol e.e gafaelwch, cerwch, codwch, torrwch Adferf amserol e.e yn gyntaf, yn ail, yn olaf Teitl, is-deitlau			

Amser	Gweithgareddau, trefnu a rheoli'r sesiwn	Cwestiynau allweddol / Asesu ar gyfer dysgu
1-1.10	Cyflwyniad Cyflwyno cyfres o luniau amwys o goncers i'r plant a gofyn iddynt ddarganfod beth yw'r eitem ddirgel? Dosbarthu concer fesul pâr iddynt. Gofyn iddynt draford priodweddau a nodweddion diddorol y concer drwy ystyried eu synhwyrâu gweld a theimlo. Plant i ddarllen y pwt ffeithiol am hanes concers. Trafod iaith anarferol y pwt a'u dealltwriaeth o'r ffeithiau. Gofyn iddynt ddyfalu pam y gelwir y gêm yn concers? 1.10- Trafod syniadau pawb, rhannu 3 ffaith am enw'r gêm a 1.2 thrafod geirfa allweddol megis berf, onomatopoeia a geirfa Ffrangeg a'r cysylltiadau ieithyddol a geir rhwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill felly. Trafod y gêm rhyngwladol a geir a gofyn i'r plant sut allen nhw galedi eu concer? Gwyllo fideo o reolau'r gêm. Adfyfrio a chasglu syniadau o'r fideo e.e camau'r gêm, unrhyw wybodaeth newydd, gwahanol.	<i>Hetiau meddwl- Beth yw concer? Sut mae'n edrych? Sut mae'n teimlo? Pam ydych chi'n meddwl ei fod y lliw hwn, y siâp hwn, y teimlad hwn?</i> <i>Beth yw ystyr 'conque'?</i> <i>Beth yw onomatopoeia?</i> <i>Rhowch enghraifft i mi. Pa ferf Saesneg sy'n swnio'n debyg i concer?</i> <i>Meddwl-paru-rhannu i ddatrys problem yn seiliedig ar wybodaeth wyddonol.</i>

1.20-1.30	Cyflwyno'r dasg o ysgrifennu cyfarwyddiadau.	
	Prif weithgareddau	
1.30-2.15	Chwarae 'mae Miss Eleri'n dweud...' er mwyn dod i ddeall berfau gorchmynnol ac adferfau amserol. Darllen enghraifft o gyfarwyddiadau. Creu rhestr wirio ar y cyd. Mewn grwpiau trefnu cyfarwyddiadau. Ail-wyllo'r fideo, creu pwyntiau bwled o'r ffeithiau allweddol.	<i>Beth yw cyfarwyddiadau? Pryd ydym ni'n defnyddio cyfarwyddiadau?</i> <i>Pa nodweddion sy'n rhaid cynnwys wrth greu cyfarwyddiadau?</i>
2.15-2.45	Mynd ati'n annibynnol i greu cyfarwyddiadau gan ddilyn y rhestr wirio a chynnwys y ffeithiau allweddol. (Disgwyl i'r lefel cyrhaeddiad uwch ddefnyddio eu gwybodaeth ychwanegol a chasglwyd o'r cyflwyniad yn eu cyfarwyddiadau. Darperir taflen eirfa wrth gefn i'r lefel cyrhaeddiad is.)	<i>Beth yw'r prif ffeithiau?</i>
2.45-3	Diwedd glo	

	Mewn parau dylid darllen eu gwaith a thrafod sut i'w wella. Os ceir amser gellid ail-ddrafftio. Os nad oes amser gallwn ar y cyd drafod y ffordd ymlaen. Gall ambell bâr ddod o flaen y dosbarth i ymarfer dilyn cyfarwyddiadau'r gêm i brofi eu dealltwriaeth o'r rheolau ac o ddilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig.	<i>Beth sydd ar goll all helpu rhywun nad sydd erioed wedi clywed am y gêm o'r blaen?</i> <i>Pa mor eglur yw eich cyfarwyddiadau?</i>
--	--	---

Cynllun Gwers 2

PWY? Gwers Gymraeg ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 (CA2).

BETH? Ysgrifennu barddoniaeth gan ddefnyddio'r dechneg 'Blackout Poetry' er mwyn annog y dysgwyr i werthfawrogi llenyddiaeth yn ogystal â chynorthwyo eu creadigrwydd. Defnyddir yr un thema a'r un topig i'r wers hon er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant yn y syniadau dysgu.

			1B
Cynllun Sesiwn – Cyfnod Allweddol 2			
Enw'r hyfforddai:	Siobhán Eleri	Cyfeirnod Sesiwn:	2
Targed(au) personol o ran SAC: S3.2 I barhau i ymateb yn sensitif ac yn ystyrlon i waith disgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig, pennu targedau priodol sy'n cynnig ffordd ymlaen i bob disgybl unigol.			
Grŵp blwyddyn:	6	Nifer y dysgwyr:	27
		ADY(ALN)	3 defnyddio cyfrifiadur gyda gwaith ysgrifenedig.
Oedolion ychwanegol:	0		
Nod(au) dysgu:		Meini prawf llwyddiant:	
Erbyn diwedd y wers dylai'r plant fod wedi cael gfael gadarn ar y coner mewn cyd-destun		Dylai fod y plant yn deall sut i fynd ati i greu barddoniaeth gan ddefnyddio'r dechneg 'Blackout Poetry'.	

creadigol yn yr achos hwn, gan greu barddoniaeth Blacowt bersonol.	Disgwylir iddynt gyflwyno'r hyn maent wedi dysgu am y concer a'r tro hwn mewn cydestun creadigol yn hytrach na ffeithiol. Yng ngwaith plant lefel cyrhaeddiad uwch disgwylir iddynt gynnwys technegau ysgrifennu creadigol megis odl.
Cysylltiadau â dysgu blaenorol: Thema'r tymor ydy 'Y Geiriau Diflanedig'. Yn dilyn llais y disgybl daeth y syniad o drafod concers. Er mwyn cyflawni'r cynllun tymor canolig penderfynwyd ar y dasg o greu cyfarwyddiadau o'r syniad hynny yn y wers ddiwethaf. Er mwyn adeiladu ar wybodaeth y plant tra hefyd yn datblygu eu sgiliau creadigol ieithyddol byddan nhw'n mynd i'r afael felly â chreu barddoniaeth gan ddilyn y dull cyflwynwyd iddynt ar ddechrau'r tymor sef 'Blackout Poetry'.	
Ymdriniaeth o'r <u>hen gwricwlwm</u> (ystod, sgiliau): Cymraeg: Ysgrifennu: Ystod: - ysgrifennu barddonol sy'n defnyddio delweddu a dyfeisiau barddonol, e.e. odlau a ffurf. Sgiliau: - defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol. - defnyddio strwythurau brawddeg amrywiol er mwyn pwysleisio a chreu effaith.	

- *cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.*

Ymdriniaeth â'r cwricwlwm newydd i Gymru (2022):

Maes dysgu a phrofiad: leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu: Creadigrwydd ac arloesedd

- 'Dysgu am a thrwy lenyddiaeth'
- 'Ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, storïwyr a llenorion.'
- 'Cefnogi'r plant i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain.'

Llythrennedd(FfLIRh)

Rhifedd(FfLIRh)

- *Dewis a defnyddio ystod eang o eirfa ddychmygus a mentrus yn gywir.*
- *Prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, ei werthuso a gwneud argymhellion pendant ar gyfer ei wella; golygu/aillddrafftio'r gwaith i ddangos cynnydd.*

FfCD

Meddwl

ADCDF

YCC

Creu ystod o gyflwyniadau gan gyfuno amrywiaeth o wybodaeth a chyfryngau, <i>e.e. poster sy'n cyfuno testun a graffeg, cyflwyniad amlgyfrwng</i>: felly bydd y plant yn ail-ddrafftio ar gyfrifiadur a'r plant lefel cyrhaeddiad uwch yn recordio eu cerddi ac yn creu codau QR ar gyfer ail-wrando ac asesu cyfoedion yn y wers nesaf.	- Hetiau meddwl: i gofio'n ôl am yr hyn ddysgon nhw am y concer yn y wers diwethaf. - Meddwl-paru-rhannu: i gael y plant i drafod yr hyn maent yn cofio am farddoniaeth ac yn benodol 'Blackout Poetry.'	<u>Amgylchedd naturiol:</u> - Datblygu parch at bethau byw. - Datblygu chwilfrydedd tuag at y byd naturiol.	<u>leithyddol:</u> Dod yn ymwybodol o Gymraeg fel iaith a'i chysylltiadau â'r Saesneg ac ieithoedd tramor modern e.e. 'conque' a'r ferf 'conquer'.
<i>Geirfa Allweddol(Cymraeg/Saesneg):</i> Disgwyl i'r plant atgoffa ei gilydd o eirfa megis:			

Concer/ conker

Coeden castanwydden/ chestnut tree

Cregyn malwod

Onomatopoeia

Berf 'conquer'

'conque' – 'conch'

Byddaf yn cyflwyno'r isod:

Barddoniaeth/cerddi- 'Blackout Poetry' (gofyn i blentyn i atgoffa gweddill y dosbarth o sut i fynd ati i wneud hyn).

Odl

Disgrifiadau e.e ansoddeiriau, berfau

Hyd brawddegau e.e atalnodi pwrpasol

Adnoddau angenrheidiol:

1. Chrome lyfrau (15)

2. iPad (2/3)

3. Geiriaduron

Amser	Gweithgareddau, trefnu a rheoli'r sesiwn	<i>Cwestiynau allweddol / <u>Asesu</u> ar gyfer dysgu</i>
9.15-9.30	Cyflwyniad Gofyn i'r plant beth oedd thema'r wers Gymraeg ddiwethaf (concers). Gofyn beth ddysgon nhw? Trafod ein bod am y tro hwn meddwl am y concer mewn cydestun creadigol yn lle ffurfiol gan greu barddoniaeth yn seiliedig ar y dull 'Blackout Poetry.' Wedi'r trafod ddod i ben byddwn yn darllen darn disgrifiadol o'r concer ar y cyd gan ymarfer llafaredd y plant yn ogystal â'u ysgrifennu. Trafodwn y darn, unrhyw eirfa anghyfarwydd. Cyflwyno enghraifft o farddoniaeth 'blackout' iddynt i atgyfnerthu eu cof o sut i wneud un ac i fodelu i'r rhai llai hyderus.	<u>Hetiau meddwl:</u> <i>Meddylwch am un ffaith ddysgoch chi am y concer yr wythnos ddiwethaf.</i> <u>Meddwl-paru-rhannu:</u> <i>Trafodwch gyda'ch partner yr hyn rydych yn ei wybod am farddoniaeth (e.e odl, ansoddeiriau, disgrifiadau, neges/stori/thema amlwg).</i> <u>Ffyn lolipop:</u> <i>Pwy sy'n cofio'r dechneg o 'Blackout Poetry'?</i>

9.30-10.05	Prif weithgareddau
	Dosbarthu llyfrau, nod cael y plant i roi'r dyddiad ac i ludo'r nod. Rhoi papur scrap a chopi o'r darn disgrifiadol iddynt fesul parau [byddan nhw wedi'u paru yn ôl y lle maent yn gweithio orau nid yn ôl lefel cyrhaeddiad- sgaffaldio Bruner (1978) ar waith!]. Mi fydd yna ddau ddarn gwahanol wedi'i wahaniaethu o ran defnydd iaith a maint disgwyliaf ansawdd y gwaith gorffenedig i ddangos gwahaniaethu hefyd. Bydd taflen eirfa ar gael i bawb hefyd.

Atgoffa'r plant pan ati'n ysgrifennu i ddefnyddio geiriadur gymaint ag sy'n bosib. Pam? Sgil allweddol,

	Wedi iddynt orffen, bydd disgwyl iddynt ddarllen eu gwaith a'i ail-ddrafftio ar gyfrifiadur y dosbarth. Bydd disgwyl iddynt recordio eu cerddi ar iPad ac yna creu côd QR yn y wers nesaf er mwyn eu asesu gyda'u cyfoedion yn y wers ganlynol a chynnig 2* a dymuniad i'w gilydd.	<i>annibyniaeth wrth ddysgu a dealltwriaeth gwell.</i> <u>Asesu cyfoedion yn y wers nesaf selfeini yn cael eu gosod nawr:</u> <i>Gwrando ar waith ei gilydd cynnig 2* a dymuniad.</i>
	Diwedd glo	
10.05-10.15	Down at ein gilydd a chaiff rhai y cyfle i ddarllen eu cerddi a chaiff y dosbarth drafod a ydynt wedi cyflawni'r meini prawf llwyddiant. Trafodwn yr hyn maent wedi dysgu a mwynhau orau a'r hyn hoffen nhw wneud nesaf.	<u>Grwpiau trafod:</u> <i>Ydy'r unigolyn hwn wedi cyflawni'r nod?</i> <i>Sut allwn wella ein cerddi?</i> <i>Beth arall allwn wneud gyda'r concer?</i>

		<i>Beth oedd eich hoff ffraith/weithgaredd?</i>
--	--	---

Rhestr gyfeiriadau

Baker, C. (2011) *Foundations of bilingual education and bilingualism*. Bristol: Multilingual Matters.

Bruner, J. (1982) *The role of interaction formats in language acquisition*. Ar gael yn:
https://link.springer.com/chapter/10.1007/978-1-4612-5074-6_2 (Darllenwyd: 2 Ebrill 2020).

Cenoz, J. (2013) *Critical analysis of CLIL: taking stock and looking forward*. Ar gael yn: <https://academic.oup.com/applij/article/35/3/243/146345> (Darllenwyd: 21 Mawrth 2020).

Central South Consortium. (2017) *Welsh second language scheme of work*. Ar gael yn: <http://www.cscjes.org.uk/Knowledge-Bank/Welsh/Welsh-Scheme-of-Work/General-Resources/Books.aspx> (Darllenwyd: 5 Mawrth 2020)

Corbett, P. (2014) *Teaching English creatively*. Ar gael yn: <https://www.talk4writing.co.uk/wp-content/uploads/2018/12/Overview-Teaching-English-Creatively.docx.pdf> (Darllenwyd: 2 Ebrill 2020).

Curry, M. (dyddiad anhysbys) *The best way to learn a language: playing games!* Ar gael yn: <https://www.fluentu.com/blog/best-way-to-learn-a-new-foreign-language-online/> (Darllenwyd: 2 Ebrill 2020).

Davies, S. (2013) *Un iaith i bawb. Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng nghyfnodau allweddol 3 a 4*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Donladson, G. (2015) *Dyfodol llwyddiannus*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Estyn. (2008) *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7-14 oed*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Hall, D. (2001) *Assessing the needs of bilingual pupils: living in two languages*. UK: David Fulton Publishers.

HWB. (2020) *Canllawiau cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru> (Darllenwyd: 3 Mawrth 2020).

Maynes, L.M. (2018) *Truth, fact and feeling: an investigation of children making meaning from poetic nonfiction picture books*. University of Leicester: School of social sciences.

Palmer, S. (2009) *Toxic childhood: how the modern world is damaging our children and what can we do about it*. London: Orion.

Preedy, P., et al. (2019) *Early childhood education redefined: reflections and recommendations on the impact of start right*. Abingdon: Routledge.

Richards, J. (2006) *Communicative language teaching today*. Ar gael yn: <https://www.professorjackrichards.com/wp-content/uploads/Richards-Communicative-Language.pdf> (Darllenwyd: 2 Mawrth 2020).

Siencyn, W. S. (2010) *Cyfnod Sylfaen 3-7 oed, athroniaeth, ymchwil ac ymarfer*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau y Drindod Dewi Sant.

Siiner, M., et al. (2018) *Language policy and language acquisition policy*. Switzerland: Springer.

Thomas, M. E., et al. (2018) *Dulliau addysgu dwyieithog*. Ar gael yn: <https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/documents/Cymraeg-tudalen.pdf> (Darllenwyd: 17 Mawrth 2020).

Williams, K. (2017) *Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl: cynllun gweithredu 2017–*

ECAD6006/C

1404722

21. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Atodiadau

ATODIAD 1: Cynllun gwrs i gyd-fynd gyda'r dystiolaeth ffilm

			1B
Cynllun Sesiwn – Cyfnod Allweddol 2			
Enw'r Siobhán Eleri		Cyfeirnod 15/16	
hyfforddai:		Sesiwn:	
Targed(au) personol o ran S.2			
SAC:		Ystyried, wrth gynllunio, yr hyn fydd modd cyflawni o fewn gwrs gan feddwl yn ofalus am yr hyn mae'r plant wedi cwblhau gyda'r athrawes yn y gorffennol ac yn gallu cwblhau felly.	
Grŵp 6	Nifer y 27	ADY(ALN) 3 defnyddio cyfrifiadur gyda blwyddyn: dysgwyr: gwaith ysgrifenedig.	
Oedolion ychwanegol:	0		
Nod(au) dysgu:		Meini prawf llwyddiant:	
Erbyn diwedd y sesiwn, dylai'r plant dan sylw fod wedi darllen a deall chwedl Branwen, gan nid yn unig adleisio'r prif ddigwyddiadau, ond hefyd, dalu sylw i'w hymateb emosiynol i'r darn yn sgil y defnydd o iaith.		Cyfrannu ar lafar ac yn ysgrifenedig gan dalu sylw i'r darllen ac ymateb iddi.	
Cysylltiadau â dysgu blaenorol:			
Thema'r tymor ydy 'Y Geiriau Diflanedig'. Gan ei fod yn sôn am anifeiliaid coll a byd natur yn diflannu penderfynnwyd bod Chwedl Branwen yn addas yn sgil y Drudwy ac i ymgysylltu'r YCC i'r gwrsi.			
Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod, sgiliau)			

Cymraeg: Darllen: <i>Sgiliau:</i> - darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol - dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant, <i>e.e. safbwyntiau neu agweddau'r awdur</i> - adnabod syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt i ddatblygu dealltwriaeth bellach			
<i>Llythrennedd(FfLIRh)</i> - dewis a defnyddio ystod eang o eirfa ddychmygus a mentrus yn gywir - ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, yr arddull, y naws, y drefn a chyflwyniad y testun gan ddewis tystiolaeth i gefnogi safbwynt		<i>Rhifedd(FfLIRh)</i>	
<i>FfCD</i> Defnyddio'r pen bwrdd gwyn i greu'r effaith blacowt ar Chwedl Branwen.	<i>Meddwl</i> Hetiau meddwl: i feddwl am eu hymateb emosiynol i'r darllen.	<i>ADCDF</i> <u>Amgylchedd naturiol:</u> Datblygu parch at bethau byw.	<i>YCC</i> <u>Diwylliannol:</u> Dod yn ymwybodol o chwedlau o fewn diwylliant a hanes Cymru. Deall eu perthnasedd wrth

	Meddwl-paru-rhannu: i gofio am brif ddigwyddiadau'r chwedl.		edrych ar iaith yn ogystal â'n hanes fel cenedl.
<i>Geirfa Allweddol(Cymraeg/Saesneg):</i>			
Disgwyl i'r plant atgoffa ei gilydd o eirfa megis:			
Cyflythreniad			
Ansoddeiriau			
Berfau gorchymynnol			
Adferfau amserol			
Amser	Gweithgareddau, trefnu a rheoli'r sesiwn		<i>Cwestiynau allweddol / <u>Asesu</u> ar gyfer dysgu</i>
1.15-1.30	Cyflwyniad		<u>Ffyn lolipop:</u> <i>Beth yw chwedl? Pam eu bod nhw'n bwysig? Oes unrhywun wedi clywed am chwedl Branwen o'r blaen?</i>
	Trafod y cwestiynau gyferbyn gyda'r plant. Cyflwyno Chwedl Branwen iddynt.		

	Prif weithgareddau	
1.30- 2.45	Darllenaf y chwedl iddynt gan bwysleisio geirfa allweddol a gofyn cwestiynau tra'n darllen i ddal a chadw sylw'r plant. Yna byddaf yn gofyn iddynt drafod mewn parau y prif ddigwyddiadau. Yn unigol wedyn gofynnaf iddynt feddwl am dri ansoddair i ddisgrifio'r hyn roedden nhw'n teimlo wrth i mi ddarllen y chwedl. Down at ein gilydd wedyn i ail-ymweld â'r chwedl ar fwrdd gwyn rhyngweithiol. Gofynnaf iddynt gylchu unrhyw eiriau o'r eirfa allweddol uchod sydd yn cwmpasu'r digwyddiadau/teimladau maent wedi trafod. Byddwn yn creu barddoniaeth blacowt o'r detholiad o eiriau gyda'r bwriad o greu broliant yn y pendraw.	<i>Beth sydd yn digwydd ar hyn o bryd? Pam bod Efnisien yn grac? Sut fydddech chi wedi ymateb i driniaeth Branwen?</i> <u>Meddwl-paru-rhannu:</u> <i>Trafodwch gyda'ch partner yr hyn rydych yn cofio am brif ddigwyddiadau'r chwedl. Pa ddigwyddiad tarodd chi fwyaf a pham hynny?</i> <u>Hetiau meddwl:</u>

		<i>Meddylwch am sut oeddech yn teimlo wrth i mi ddarllen i chi?</i> <i>Pam hynny?</i>
2.45-3	Diwedd glo	
	Crynhoi yr hyn maent wedi dysgu gan nodi y bwriad o greu broliant yn y sesiynau'n y dyfodol.	<i>Beth yw broliant? Pa sgiliau o'r sesiwn hon sydd yn dy helpu i ddeall sut i ysgrifennu un da/effeithiol/unigryw?</i>

Ceir isod tystiolaeth o arsylwadau gan diwtor proffesiynol o addysgu iaith yr hyfforddai mewn gwrs Gymraeg CA2 Blwyddyn 6:

[illegible]

Rhestr o'r iaith Gymraeg

Tre i'w plant gymrodd yr ystafell roedd cerddoriaeth yn chwarae'n y cefndir a llaw ar y BGRh, gwnest un cyfarfod a gofyn iddynt feddwl am einiaid i ddisgrifio y lle a'u teimladau. Cynigiais gyfeirnod i'r plant draffod a datblygu'u geirfa bersonol gan ehangu ar eu hymdrechion gan sgwro ymheftach – Da lawen. Tynnais sylw at y theme canolog ac annog rhai unigolion i ddarllen a ffrant y llyr ar goeddi – defnyddio'r gerlau yma fel sail i'w gwaith creadigol. Cynigiais gefnogaeth yn ystad o

Ansawdd iaith lafar ac ysgrifenedig yr hyfforddol, Cymraeg a Saesneg fel y bo'n briodol. Rhewch sylwadau:

Gwnel gynnnig model addas a chywir i'r plant, gwneist ymestyn geirfa'r disgyblion heddiw gan sicrhau cywirdeb iaith.



ATODIAD 3: Enghreifftiau o adnoddau gwreiddiol fel tystiolaeth o allu'r hyfforddai i feithrin sgiliau llythrennedd a gwahaniaethu

Gemau i ddatblygu sgiliau iaith gynnar plant

❖ Ysbŵr ysbennedd:

- Gosodwch lun i'r plant o olygfa neu destun o'r stori ddarllenwyd.
- Dileuwch y llun a gofynnwch i'r plant beth oedd wedi aros ar eu cof wedi i'r llun ddiflannu.
- Trafodwch hyn fel dosbarth.

❖ Llafarganu rhythmig:

- Dosbarthu'r plant i grwpiau er enghraifft 4 rhan.
- Gofyn i bob rhan ail-adrodd gair o'r llyfr dewisiol mewn rhythm gwahanol.
- Cyd-adrodd/ganu'r rhanau gan ymarfer llafar a rhythm plant.

❖ Odliadur byw:

- Dewisiwch air o'r llyfr a'i gyflwyno i'r dosbarth.
- Ewch o amgylch y dosbarth yn gofyn i blant odli â'r gair ar hap tan nad oes gan neb air ar ôl!

❖ Cwis cyflythrennu:

- Dewisiwch lythrenn, ewch o amgylch y dosbarth mor gyflym ag y gallwch i ddewis geiriau sy'n dechrau â'r un llythrenn- does dim hawl defnyddio'r un gair fwy nag unwaith!

❖ Y craffwr cudd:

- Mae gan baw bump eiliad i ddarganfod un oeth arbennig o fewn yr ystafell... 3,2,1- craffwch!

Ffigwr 1: Enghraifft
o gemau
gwreiddiol i annog
datblygiad
llythrennedd
dysgwyr mewn
modd sionc a sbri.

Ffigwr 2: Enghraifft o dasg gwreiddiol wrth addysgu cyfeiriadau i blant Cyfnod Sylfaen. Atega bwysigrwydd adeiladu a sgaffaldio tasgau iaith.



Ffigwr 3: Enghraifft o dasg iaith gwrieddiol gyda Chyfnod Allweddol Dau sef, creu geiriadur dosbarth gyda chymysg o eiriau, diffiniadau a lluniau/darluniau. Tystiolaeth o allu'r hyfforddai i wau Cymhwysedd Digidol a Chelf er mwyn sbarduno dysgu iaith dysgwyr.

ATODIAD 4: Tystiolaeth o gywiro gwaith iaith dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn effeithiol

Plant yn ymateb i fy nghywiriadau iaith o'u gwaith



Tystiolaeth o fy ngallu i gywiro gwaith iaith dysgwyr gan bennu targedau addas a chyrhaeddadwy iddynt. Dengys hefyd awydd y dysgwyr i wella'u gwaith iaith.